

## CYNGOR GWYNEDD / GWYNEDD COUNCIL

Partneriaeth Penllyn	Penllyn Partnership
CEFNDIR.	BACKGROUND
<p>Cynllun peilot yw Partneriaeth Penllyn a sefydlwyd yn dilyn trafodaethau yn 2008 a 2009 rhwng Cyngor Gwynedd a'r pum cyngor sydd yn ardal Penllyn. Fe ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill, 2009 gyda chytundeb ar gyfer Dirprwyo Swyddogaethau gan Gyngor Gwynedd i Bartneriaeth Penllyn.</p>	<p>Penllyn Partnership is a pilot scheme that was established following discussions in 2008 and 2009 between Gwynedd Council and the five councils in the Penllyn area. It became operational on 1 April, 2009, with an agreement for Delegating Functions from Gwynedd Council to the Penllyn Partnership.</p>
<p>Mae'r pum cyngor sydd i'r Bartneriaeth, sef; Cyngorau Cymuned Llanuwchllyn, Llandderfel, Llanycil a Llangower gyda Chyngor Tref Y Bala yn cydweithio mewn ffordd newydd ac arloesol i ddarparu rhai o wasanaethau Cyngor Gwynedd a gweithredu ar ran yr ardal. Y nôd yw i :-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) ddatblygu perthynas newydd rhwng pobl leol a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir i'w hardal a hwyluso gwelliannau ffisegol yn yr amgylchedd adeiledig,</li> <li>(ii) weithredu fel cyfrwng i ddylanwadu ar gyrrff cyhoeddus, a</li> <li>(iii) geisio presenoldeb cyrrff cyhoeddus o fewn ardal Penllyn</li> </ul>	<p>There are five councils in the Partnership, namely, the Community Councils of Llanuwchllyn, Llandderfel, Llanycil, Llangower, along with Bala Town Council. They collaborate in a new and innovative way in the delivery of some of Gwynedd Council's services and act on behalf of the area. The aim is:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) to develop a new relationship between local people and the public services provided for their area and facilitate physical improvements in the built environment,</li> <li>(ii) to act as an agent for influencing public bodies, and</li> <li>(iii) to seek the presence of public bodies in the Penllyn area.</li> </ul>
<p>Mae'r Bartneriaeth yn ymwneud yn gynyddol raddol â dyletswyddau a berthyn i wasanaethau penodedig, sef; toiledau cyhoeddus, caeau chwarae i blant, hawliau tramwy, meinciau a thiroedd agored. Ni throsglwyddir unrhyw asedau Cyngor Gwynedd i'r Bartneriaeth fel rhan o'r cytundeb dirprwyo. Mae dewis gan y Bartneriaeth i geisio cymryd rheolaeth lwyr o'r meysydd cyfrifoldeb a gall hyn olygu trosglwyddiad o asedau Cyngor Gwynedd, pe fo'n digwydd.</p>	<p>The Partnership is becoming increasingly involved with duties relating to specific services, namely: public toilets, children's playing fields, rights of way, benches and open lands. No assets belonging to Gwynedd Council will be transferred to the Partnership as part of the delegation agreement. However, the Partnership has the choice of taking complete control of the fields of responsibility and should this happen, this could result in the transfer of Gwynedd Council's assets.</p>
<p>Mae tair graddfa o ddyletswyddau rhoddir i'r Bartneriaeth o'r cytundeb ar gyfer Dirprwyo Swyddogaethau, sef; Sylfaenol, Canolig ac Uchel. Mae Partneriaeth Penllyn wedi cyflawni graddfa Sylfaenol yn 2009/10 ac wedi dewis ymwneud â'r raddfa Ganolig yn 2010/11. I bob blwyddyn mae dyraniad ariannol a berthyn i'r raddfa o gyfrifoldeb ac sydd i'w weinyddu'n llwyr gan y Bartneriaeth.</p>	<p>Three grades of responsibilities are given to the Partnership by the Functions Delegation agreement, namely: Basic, Medium and High. The Penllyn Partnership has completed the Basic grade in 2009/10 and has chosen to undertake the Medium grade in 2010/11. There is a financial allocation for every year relating to the responsibility grade and this is administered entirely by the Partnership.</p>
<p>Mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu a mabwysiadu cyfansoddiad a chrëwyd swydd Cydlynnydd sydd yn ymdrin â'r gwasanaethau ac yn gyfrifol am</p>	<p>The Partnership has established and adopted a constitution and the post of a co-ordinator has been created for dealing with services and is responsible</p>

<p>weinyddiaeth a rheolaeth gyllidol. Cynhelir cyfarfodydd o'r Bartneriaeth yn rheolaidd mewn gwahanol ganolfannau ar draws ardal Penllyn.</p>	<p>for administration and financial management. Regular meetings of the Partnership are held in different centres across the Penllyn area.</p>
<p><b>MANTEISION</b></p>	<p><b>ADVANTAGES</b></p>
<p>(i) Cael pum cyngor yn cydweithio i ddatgan syniadaeth, dymuniad a barn ar y cyd a gosod cyfeiriad arweiniol cadarn i'r Bartneriaeth.</p> <p>(ii) Cael pum cyngor yn cydweithio i ddatgan syniadaeth, dymuniad a barn ar y cyd a all hysbysu a chyfarwyddo Cyngor Gwynedd ynghylch materion lleol; yn rhai cyfredol a thua'r dyfodol.</p> <p>(iii) Mae'r Bartneriaeth yn cynnig fforwm i'r ardal leol ac yn gyfrwng i leisio dyheadau, syniadau ac anghenion ei phoblogaeth.</p> <p>(iv) Mae'r Bartneriaeth yn gallu cyfleu gwybodaeth am flaenoriaethau'r ardal leol.</p>	<p>(i) Having five councils collaborating on expressing their joint ideas, aspirations and opinions and setting a firm direction for the Partnership.</p> <p>(ii) Having five councils collaborating on expressing their joint ideas, aspirations and opinions that could inform and direct Gwynedd Council regarding local issues that are both current and for the future.</p> <p>(iii) The Partnership offers a forum for the local area and is a means of voicing the aspirations, ideas and needs of its population.</p> <p>(iv) The Partnership is able to communicate information on the priorities of the local area.</p>
<p><b>GWERSI.</b></p>	<p><b>LESSONS</b></p>
<p>(i) Rhaid sicrhau strwythur a chyfansoddiad ymarferol i'r bartneriaeth ar y cychwyn.</p> <p>(ii) Mae defnydd o fodel sydd yn trosglwyddo cyfrifoldebau yn raddol gynyddol yn rhoi cyfle i'r bartneriaeth sefydlu ei weithdrefnau wrth dderbyn profiad a datblygu sgiliau. Mae'r model yn rhoi gallu i'r cyngor trosglwyddo i gyflawni asesiad risg o'r fenter.</p> <p>(iii) Dylai bartneriaeth dderbyn arweiniad, cymorth a chefnogaeth fel y bo'r angen oddi wrth y cyngor trosglwyddo, yn enwedig yn ystod y flwyddyn gyntaf.</p> <p>(iv) Gall y Bartneriaeth datblygu ei ddylanwad ar ystod eang o wasanaethau a ddarperir i'r ardal, gan Gyngor Gwynedd ac eraill.</p> <p>(v) Rhaid sicrhau fod unrhyw bartneriaeth debyg i Bartneriaeth Penllyn yn seiliedig ar gasgliad cywir o gynghorau parthed nifer ac agweddau. Mae'r gallu a'r parodrwydd i gydweithio ac ysgwyddo dyheadau cyffelyb yn allweddol bwysig i sicrhau canlyniad llwyddiannus i'r fenter.</p>	<p>(i) A practical structure and constitution must be ensured for the partnership initially.</p> <p>(ii) The use of a model that transfers responsibilities increasingly gradually provides an opportunity for the partnership to establish its procedures as it gains experience and develops skills. The model provides the transferring council with the ability to undertake a risk assessment of the initiative.</p> <p>(iii) The partnership should receive guidance, assistance and support as required from the transferring council, especially during the first year.</p> <p>(iv) The partnership could develop its influence on a broad range of services provided in the area by Gwynedd Council and others.</p> <p>(v) It must be ensured that any partnership that is similar to the Penllyn Partnership is based on the correct collection of councils in terms of numbers and attitudes. The ability and willingness to collaborate and share similar aspirations is crucially important to ensure a successful outcome for the initiative.</p>